HANES CELF, PENSAERNÏAETH A DYLUNIO

Gan ddibynnu ar ganolbwynt eich rhaglen radd, fel unigolyn sydd wedi graddio mewn Hanes Celf, Pensaernïaeth a Dylunio, fel rheol bydd gennych y gallu i:

- Ddeall agweddau ar ddiwylliant mwy nag un rhanbarth daearyddol a/neu gyfnod cronolegol.
- Deall y prosesau a ddefnyddir i ddylunio a chreu arteffactau.
- Arsylwi arteffactau yn ofalus ac yn drefnus, gan ddefnyddio gwybodaeth briodol am ddeunyddiau, technegau a chyd-destunau diwylliannol.
- Cofnodi a disgrifio arteffactau yn glir a manwl gywir, gan ddefnyddio iaith arferol ac arbenigol fel bo'n briodol i'r pwnc a'r gynulleidfa arfaethedig.
- Defnyddio dulliau priodol ar gyfer dod o hyd i ffynonellau gwreiddiol a'u hasesu a'u dehongli.
- Cynhyrchu naratif a dadleuon rhesymegol a strwythuredig gyda thystiolaeth berthnasol i'w cefnogi.
- Gwahaniaethu rhwng dadleuon a dulliau amgen.
- Gallu defnyddio gwybodaeth a phrofiad er mwyn gwneud penderfyniadau priodol mewn cyd-destunau cymhleth a heb eu cofnodi'n gyflawn.
- Adalw a threfnu gwybodaeth a chyflawni ymchwil heb fawr o arweiniad.
- Mynegi gwybodaeth, dadleuon a syniadau yn effeithlon ac effeithiol i gynulleidfaoedd arbennig, a hynny'n ysgrifenedig, ar lafar neu drwy ddull arall gan ddefnyddio cymhorthion gweledol ac adnoddau TG.
- Gwrando'n effeithiol a chymryd rhan yn adeiladol mewn trafodaeth.
- Defnyddio deunydd gweledol ar y cyd â gohebiaeth ysgrifenedig, llafar neu fath arall o gyfathrebu megis traethodau eglurhaol a seminarau, sleidiau, delweddau symudol neu gyflwyniadau aml-gyfrwng.
- Bod yn agored ac yn barod i dderbyn gwrthrychau a syniadau newydd.
- Cyflawni tasgau gosod cyfarwydd ac anghyfarwydd.
- Gweithio'n adeiladol ac yn gynhyrchiol mewn grwpiau.
- Gweithio yn ôl briff a therfynau amser, gan gynnwys rheoli prosiectau cydamserol.
- Bod yn gyfrifol am eich gwaith eich hun.
- Myfyrio ar eich dysgu eich hun a defnyddio adborth yn adeiladol.

Trosolwg o Hanes Celf, Pensaernïaeth a Dylunio

Mae Hanes Celf, Pensaernïaeth a Dylunio yn ymwneud â chynhyrchu, dosbarthu a derbyn ystyron a gwerthoedd mewn hanes. Gall myfyrwyr ystyried arteffactau yn gyffredinol fel gwrthrychau sydd wedi'u creu, wedi'u dylunio, rhai sydd iddynt ystyr a gwerth, ac fel rhai y mae eu hastudio yn eu cyd-destun yn cyfoethogi'r ddealltwriaeth ohonynt.

Fel unigolion eraill sydd wedi graddio mewn Celf, Dylunio a'r Cyfryngau, mae graddedigion yn wynebu llwybrau gyrfa cymhleth sy'n cynnwys cymysgedd o gontractau byrdymor, cyflogaeth, astudiaeth bellach, gwaith rhan-amser a gwaith rhyddgyfrannol yn hytrach na datblygiad gyrfa rhagweladwy. Ar yr un pryd, mae'r pwnc yn addas ar gyfer gyrfa fel llyfrgellydd academaidd, gweinyddydd celfyddydau, arwerthwr/prisiwr celfyddydau cain, cynorthwy-ydd golygyddol, darlithydd, curadur, ymchwilydd lluniau, athro neu reolwr teithiau.

Ffynhonnell: CIHE 2006